**Dydd Iau Cablyd**

**Darllen Ioan 13:1–17**

Dduw'r Creawdwr, diolchwn a mawrygwn di
am nad wyt yn dal dy gariad tuag atom yn ôl;
mentraist greu'r ddynoliaeth a darparu ar ei chyfer,
heb ofyn am ddim yn ôl ond i ni dy garu di a charu'n gilydd.

A: Arglwydd, sy'n plygu ac yn golchi ein traed,
C: dysg ni i garu a gwasanaethu.

Dduw'r Gwaredwr, diolchwn a mawrygwn di
am nad wyt yn dal dy gariad tuag atom yn ôl;
buost fyw, fel ninnau, ar y ddaear hon,
ac yn dy haelioni, rhoddaist y bywyd hwnnw trosom
heb ofyn am ddim yn ôl ond i ni dy garu di a charu'n gilydd.

A: Arglwydd, sy'n plygu ac yn golchi ein traed,
C: dysg ni i garu a gwasanaethu.

Ysbryd Duw, diolchwn a mawrygwn di
am nad wyt yn dal dy gariad tuag atom yn ôl;
yr wyt yn mentro ymlwybro'n ddistaw
wrth i ti symud yn ein bywydau a'n byd
gan ofyn am ddim yn ôl ond ein bod
yn agor ein calonnau i'th nerth.

A: Arglwydd, sy'n plygu ac yn golchi ein traed,
C: dysg ni i garu a gwasanaethu.

Cyffeswn, O! Dduw,
nad ydym yn byw ein bywydau
mewn ymateb i'th gariad.
Mae ein traed yn fudr ac angen eu golchi.
Ym mhob man y mae pobl â'u traed
wedi eu baeddu a'u blino
gan eu pererindod drwy'r bywyd hwn:
y rhai y mae eu hanghenion corfforol ac ysbrydol yn eu llethu;
y rhai y mae eu bywyd wedi ei lychwino gan afiechyd, pryder a thristwch.
Gweddïwn dros...
Cadw ni rhag dal ein cariad yn ôl
oddi wrth y rhai sydd ei angen fwyaf.

A: Arglwydd, sy'n plygu ac yn golchi ein traed,
C: dysg ni i garu a gwasanaethu.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***